# Meini prawf cymhwyster

| Opsiwn | Categori | Statws cymhwyster | Gwasanaethau sydd ar gael | Mesur rheoli | Cyfyngiadau gwasanaeth |
|---|---|---|---|---|---|
| **1** | Busnes ffermio sefydledig | LLAWN | Pob gwasanaeth | - 3ha o dir amaethyddol cofrestredig cymwys yng Nghymru*<br>- Cyfeirnod Cwsmer (CRN)<br>- Prif Rif Daliad Cymreig (CPH)**<br>*Wedi'i gofrestru gyda Llywodraeth Cymru ar Daliadau Gwledig Cymru Ar-lein (RPW Ar-lein)<br>** Dim ond os yn berthnasol | Partneriaid busnes, aelodau agos o'r teulu *(priod/partneriaid/meibion/merched)* a gweithwyr ar gynllun Talu Wrth Ennill *(bydd angen slip cyflog o'r 3 mis diwethaf neu P60)* yn gymwys.<br>Cymorth cymorthdaledig *(hyfforddiant)* hyd at uchafswm o dri chwrs y flwyddyn *(cyfyngiadau yn berthnasol)*.<br>Hyd at 90% o gyllid ar gael i gael mynediad at gyngor busnes a thechnegol. Cyfyngedig i £3,000 fesul busnes cymwys *(cyfyngiadau yn berthnasol)*. |
| **2** | Systemau ffermio / garddwriaeth arbenigol o dan 3ha | LLAWN | Pob gwasanaeth | - Gweithgareddau Ffermio arbenigol o dan y trothwy 3ha<br>- >550 o oriau llafur safonol y flwyddyn<br>- Cyfeirnod Cwsmer (CRN)<br>- Prif Rif Daliad Cymreig (CPH)*<br>* Dim ond os yn berthnasol | Rhaid i bob system ffermio / garddwriaeth arbenigol fodloni'r gofyniad >550 o oriau llafur safonol y flwyddyn.<br>Partneriaid busnes, aelodau agos o'r teulu *(priod/partner/meibion/merched)* a gweithwyr ar gynllun Talu Wrth Ennill *(bydd angen slip cyflog o'r 3 mis diwethaf neu P60)* yn gymwys.<br>Cymorth cymorthdaledig *(hyfforddiant)* hyd at uchafswm o dri chwrs y flwyddyn *(cyfyngiadau yn berthnasol)*.<br>Bydd hyd at 90% o gyllid ar gael i gael mynediad at gyngor busnes a thechnegol, wedi'i gyfyngu i £3,000 fesul busnes cymwys *(cyfyngiadau yn berthnasol)*. |
| **3** | Newydd-ddyfodiaid<br>Ffermwyr/garddwriaethwyr newydd, gyda'r hyfforddiant a'r profiad i sefydlu busnes fferm/garddwriaeth newydd. | CYFYNGEDIG | Digwyddiadau; Cymorthfeydd, clinigau a gweithdai; Agrisgôp; Mentora; E-Ddysgu; Academi Amaeth; Hyfforddiant; Dechrau Ffermio; Gwasanaeth Cynghori; Cefnogaeth garddwriaeth | Unigolion sydd eisoes yn byw yng Nghymru sy'n bwriadu sefydlu busnes newydd. Rhaid bod gan unigolion gymhwyster coleg/addysg bellach perthnasol a/neu fod wedi cael o leiaf 2 flynedd o brofiad gwaith yn y sector.<br>• Bodloni'r gofyniad 3ha o dir amaethyddol cofrestredig cymwys yng Nghymru o fewn dwy flynedd<br>• CRN (Cyfeirnod Cwsmer)<br>*Gellir ystyried unigolion o gefndir nad yw'n ymwneud â ffermio heb unrhyw brofiad na chymwysterau fesul achos ar gyfer nifer cyfyngedig o wasanaethau y cytunwyd arnynt ymlaen llaw.<br>Ni ddylai fod wedi gwneud unrhyw waith fel contractwr o'r blaen. | Mae partneriaid busnes yn gymwys.<br>Cymorth cymorthdaledig *(hyfforddiant)* hyd at uchafswm o dri chwrs y flwyddyn *(cyfyngiadau yn berthnasol)*.<br>Bydd hyd at 100% o gyllid ar gael fesul achos i gael mynediad at un enghraifft o gymorth ymgynghorol *(Cynllunio Busnes)* dros gyfnod y rhaglen. |
| **4** | Contractwr | CYFYNGEDIG | Digwyddiadau; Mentora; E-Ddysgu; Hyfforddiant; Cymorth garddwriaeth | Contractwyr sydd eisoes yn byw yng Nghymru ac yn gwneud gwaith amaethyddol/garddwriaethol rheolaidd i fusnesau cofrestredig *(rhaid i'r busnesau hynny ddangos tystiolaeth o statws cymhwyster llawn)*.<br>Statws contractwr i'w gadarnhau gan aelodaeth NAAC neu gyfwerth ac wedi'i wirio gan y busnes cofrestredig. | Cymorth cymorthdaledig *(hyfforddiant)* hyd at uchafswm o dri chwrs y flwyddyn. *(cyfyngiadau yn berthnasol)*.<br>Bydd PAYE gyda chontract dim oriau yn cael ei ddiffinio fel contractwr. |

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**

FARMING connect
cyswllt FFERMIO